# Adroddiad Arolygu

**Eirian Suarez-Pritchard**

**Bae Colwyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad, ac maent yn rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant beth maent am ei wneud yn hyderus. Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu ac maent yn cael digon o gyfleoedd i ddewis.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n cefnogi'r plant yn unigol mewn modd cynnes a chadarnhaol iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn hamddenol, yn garedig ac yn gyfeillgar ac mae'n cynllunio amrywiaeth o weithgareddau yn unol â diddordebau'r plant. Mae'n sicrhau ei bod yn tanio dychymyg y plant gyda gweithgareddau diddorol a diwrnodau allan sy'n eu helpu i ddysgu a datblygu eu sgiliau.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant gyda chyfleoedd dysgu da. Mae'n sicrhau y caiff peryglon a risgiau eu monitro a'u rheoli'n effeithiol dan do. Ceir amrywiaeth dda o brofiadau ac adnoddau naturiol sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol, corfforol a chreadigol y plant yn effeithiol, ac maent yn cynnig cyfleoedd dysgu da hefyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei darpariaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol.  Bydd yn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw argymhellion yn gyflym. Mae dogfennau yn glir ac yn drefnus ac mae'n hawdd dod o hyd iddynt. Mae gwiriadau addasrwydd yn gyfredol hefyd. Caiff y rhieni wybodaeth am ddatblygiad eu plant ar lafar.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr adnoddau a'r gweithgareddau a gallant ddewis drostynt eu hunain neu ofyn i'r gwarchodwr plant estyn eitemau iddynt, megis toes chwarae. Maent yn hapus i ddilyn eu diddordebau eu hunain, gan greu gemau dychmygol a dewis gwisgo i fyny. Maent yn mynegi'r hyn y maent am ei wneud yn glir. Gall y plant benderfynu ar enw ar gyfer cath y teulu sy'n newid yn rheolaidd pan fydd y plant yn meddwl am enw gwell. Mae'r plant yn penderfynu yr hoffent wrando ar ganeuon ac yn gofyn i'r gwarchodwr plant am eu ffefrynnau y maent yn hapus eu rhannu.

Mae gan y plant gysylltiadau agos â'r gwarchodwr plant ac maent yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r plant eraill sy'n mynychu'r lleoliad. Maent yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn sgwrsio ac yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud yn hyderus. Mae'r plant yn hapus i fynd at y gwarchodwr plant am gysur. Mae'r plant yn ymateb yn dda i anogaeth gadarnhaol a chanmoliaeth am y pethau y maent yn eu gwneud, er enghraifft 'A piece of art' a 'good girl'.

Mae'r plant yn rhannu adnoddau, megis toes chwarae i greu bwyd ffug. Maent yn cydchwarae yn dda yn ogystal â rhannu'r siop hufen iâ. Maent yn gwrando ar ei gilydd ac yn darparu hufen iâ mefus ar gais. Maent yn hyderus gan fod y drefn ddyddiol yn gyfarwydd. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn gyffrous gan eu bod yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd y diwrnod hwnnw, megis ymweliad â pharc fferm. Maent yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud ac maent yn awyddus i'w chynnwys wrth chwarae drwy wrando ar eu hoff ganeuon, megis Crazy Frog, sy'n arwain at lawer o chwerthin wrth iddynt chwarae. Mae un plentyn yn esgus bod yn deigr trist tra bod un arall yn estyn ei fag meddyg ac yn archwilio dannedd y teigr. Mae'r plant yn sgwrsio am yr hyn y maent yn ei wneud, gan esbonio bod angen llawdriniaeth ar y teigr i newid ei glustiau a'u bod am dynnu'r clustiau a gosod rhai newydd. Mae'r plant yn gwneud sylwadau adeiladol am yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud ac maent yn gefnogol iawn gan ddweud 'You can do it' wrth iddynt geisio ysgrifennu eu henwau.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu ac maent yn datblygu sgiliau newydd yn dda. Maent yn hoffi treulio amser yn yr awyr agored ac yn yr ardd bob dydd fel arfer. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'n gorfforol ac yn gymdeithasol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain ac eraill, megis mynd i'r ystafell ymolchi a gwisgo i fyny ar gyfer gweithgaredd chwarae rôl. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn dda gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mae'r gwarchodwr plant wedi ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu, felly mae'n gwybod pa weithdrefn i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon am blentyn.  Mae'n cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau bod y rhieni yn llofnodi'r cofnodion wrth gasglu'r plant, os bydd angen. Er bod y gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd iach o fyw drwy ddarparu byrbrydau a digon o ffrwythau i'r plant, argymhellir ei bod yn ystyried y canllawiau maeth ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar. Caiff ymarferion tân a phrofion larwm tân eu cynnal yn rheolaidd felly mae'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad os bydd argyfwng. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o'r rhain.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'r gofal yn hamddenol, dan arweiniad y plant, gan sicrhau bod llesiant emosiynol y plant yn cael ei feithrin. Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a charedig, gan roi digon o ganmoliaeth am gyflawniadau bach. Mae'n ymdrin â'r plant mewn ffordd bwyllog a theg. Er enghraifft, mae technegau tynnu sylw yn hynod effeithiol a chlir, mae esboniadau syml yn helpu plant i ddeall sut mae rhannu'n gweithio pan fydd dau blentyn am gael y gist trysor.

Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus am ddatblygiad plant ac mae'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus, ond ni chaiff hyn ei gofnodi. Mae'n dilyn arferion a dewisiadau unigol y plant. Mae'r rhieni yn cael lefel dda o fanylion am ddiwrnod eu plentyn drwy adborth ar lafar a digon o luniau. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a phrofiadau bywyd go iawn y mae'r plant yn eu mwynhau, megis ymweld â pharc fferm, ac sy'n cysylltu â'r tymhorau, achlysuron arbennig a mannau o ddiddordeb.  Mae'n sicrhau bod y plant yn brysur ac yn parchu eu holl ddewisiadau, diddordebau a cheisiadau.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn diwallu anghenion y plant. Caiff y drws ffrynt ei gadw ar glo, a chaiff ymwelwyr â'r lleoliad eu cofnodi. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel a bod yr amgylchedd a'r teganau yn lân, mewn cyflwr da ac yn briodol o ran oedran. Mae rhestr wirio diogelwch wedi cael ei chwblhau ac mae asesiadau risg yn nodi ac yn rheoli unrhyw beryglon a pha gamau gweithredu sydd eu hangen. Mae'r gwarchodwr plant wedi prynu cloeon newydd ar gyfer y ffenestri er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel bob amser. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei ystyried wrth fynd â'r plant oddi ar y safle ac mae wedi dechrau cofnodi pob lleoliad unigol yr ymwelir ag ef. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas a bod y plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae'n darparu digonedd o deganau, gemau a chyfarpar i'r plant ac yn eu trefnu'n dda fel bod modd i'r plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y lleoliad yn groesawgar i'r plant. Mae cynllun yr ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac mae wedi'i threfnu'n ddeniadol er mwyn i'r plant allu mynd ati i archwilio'n rhydd ac i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r ardaloedd chwarae yn olau ac yn llawn lliw, ac mae pob darn o ddodrefn yn briodol ac mewn cyflwr da. Mae ffrâm ddringo yn yr ardd ynghyd ag ardaloedd gwahanol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu gwahanol i'r plant fwynhau chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn dda drwy ymweld â pharciau chwarae gwahanol yn rheolaidd gyda'r plant. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Gerllaw'r tŷ, mae nant fach a soniodd y gwarchodwr plant am y ffyrdd y caiff ei defnyddio pan fydd y tywydd yn gynhesach i drochi traed a cheisio dal pysgod. Yn yr ardal awyr agored, mae tŷ chwarae a chegin yn sicrhau y gall y plant ddilyn eu syniadau a chreu gweithgareddau chwarae dychmygus. Mae gan y gwarchodwr plant ardal dyfu yn yr ardd er mwyn sicrhau y gall y plant ofalu am eu planhigion. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau gan gynnwys eitemau plastig ac eitemau naturiol sy'n rhoi'r cyfle i'r plant weithio gyda gwahanol weadau ac arwynebau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod enghreifftiau o waith y plant yn cael eu harddangos ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth mewn ffordd broffesiynol. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig fel y gallant wneud dewis. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i rieni ac mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion o bresenoldeb y plant. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion yn glir ac yn drefnus, ac mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth a dogfennau. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth gwarchod plant. Mae'r sefydliad hwn yn ei helpu i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ei busnes, ac mae'n defnyddio enghreifftiau o'r ddogfennaeth a ddarperir gan y sefydliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'n myfyrio ar ei hymarfer ac yn cwblhau adolygiad blynyddol. Yn anffodus, ni wnaeth hunanasesiad eleni gyrraedd AGC mewn pryd. Mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei bod eisoes wedi cwblhau'r argymhellion, gan ddangos ei bod yn rhagweithiol wrth geisio darparu'r gofal gorau posibl i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Caiff safbwyntiau'r rhieni eu hystyried, a gofynnir am adborth. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael a chafwyd y sylwadau canlynol: ‘Nice safe environment’, ‘I am happy with the daily logs and chats’, ‘Always has a great time’.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod wedi ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf a'i bod yn ymwybodol o ganllawiau cyfredol er mwyn iddi allu gwella ei gwybodaeth a chyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae gan bob aelod perthnasol o'r teulu wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni. Mae'n rhoi llawer o wybodaeth iddynt am ddiwrnod eu plentyn drwy gofnodion dyddiol sy'n dangos lluniau o'r plant yn mwynhau eu hamser gyda hi. Mae'r gwarchodwr plant yn ystyriol o anghenion y plant a'u rhieni a chaiff ffurflenni eu cwblhau cyn i'r plentyn ddechrau er mwyn i'r gwarchodwr plant allu darparu lefel dda o ofal. Mae diweddariadau rheolaidd gan y rhieni yn sicrhau bod anghenion newidiol y plant yn parhau i gael eu diwallu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/06/2024